MEINIR YW IAITH AMYNEDD...

Gwir yw, / mae dy garu, Rhys,
yn alar / main o felys -
nid o ran / y gusan / gaf,
ond hawl / pob cariad olaf;
heddiw a ddoe'n / wreiddiau hen,
darfod / mewn ceudod / coeden....

A Rhys, / fel yr arhosais!
Dy ddwy lath. / Neu am fedd dy lais.
A cheisio / dy gofio'n / gry',
arwr / anfarwol fory!
Methu gwrth**od** / dy bri**od**as,
gan garu'n hir / â gwin gras...

Y brigau / biau rhegi
deilen oer / ein hanadl ni,
merch rhy wyw / i aur bywyd
a thi'n gaeth / o unig o hyd;
ym marw'r / iaith y mae'r ôl,
a'i wynt a'i air / annaturiol...

Ai fi'r un / fu farw o frad?
Neu ai cur / yw pob cariad?
Ac ai ofer / yw'r sêr / sydd
yn wylo / fy nghywilydd?
A ga'i guddio / calon / cur
rhag gwaedu'n / rhwyg o wydyr?

Rhys, dy ran / yw craith dros-dro -
anafu / sy'n anghofio.
O drasiedi, Rhys, / dy wir aeth
yn ail / i gwrs dynoliaeth.
A cheubren / fy ngwisg wen / i
yw derwen / sy'n dy dorri.

Gwn, yn y Nant, / yn gân hir
hen lwon / eto glywir,
wedi i ddau / mewn cariad ddod
yn hy^n / na'u tristwch hynod;
ti /a fi / a modrwy fach,
dau a'u rhwymyn / yn drymach.

Karen Owen
Chwefror 2020